**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Elin Jones AS, Llywydd
Cadeirydd Fforwm y Cadeiryddion
Drwy e-bost

6 Hydref 2025

Annwyl Lywydd,

**Adolygiad o effeithiolrwydd y Pwyllgorau**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 8 Gorffennaf 2025 ac am y cyfle i gyfrannu at adolygiad Fforwm y Cadeiryddion o effeithiolrwydd y pwyllgorau yn ystod y Chweched Senedd. Trafododd y Pwyllgor y mater hwn yn ei gyfarfod ar 18 Medi a chytunodd i godi'r pwyntiau a ganlyn mewn ymateb i'r meysydd a amlinellwyd yn y ddogfen ymgynghori.

Maint y pwyllgorau a ffyrdd o weithio

Fel y mae dogfen ymgynghori'r Fforwm yn ei nodi, y Pwyllgor Cyllid yw un o ddau bwyllgor lleiaf y Chweched Senedd. Er nad yw hyn wedi arwain at broblemau wrth sicrhau cworwm hyd yma, mae maint ein haelodaeth wedi golygu ein bod wedi dod yn agos at fethu â sicrhau cworwm o bryd i'w gilydd, yn enwedig pan nad yw Aelodau'n gallu dod i gyfarfod ar fyr rybudd neu oherwydd amgylchiadau annisgwyl. Mae maint y Pwyllgor hefyd wedi ein gwneud yn fwy agored i heriau logistaidd ac wedi rhoi mwy o bwysau ar Aelodau i ddod i bob cyfarfod o gymharu ag aelodau o bwyllgorau mwy.

Mae aelodaeth lai hefyd yn cyflwyno heriau ymarferol wrth drefnu ymweliadau allanol a digwyddiadau ymgysylltu.

Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor hefyd yn cydnabod manteision aelodaeth lai, yn enwedig o ran rhoi mwy o amser a chyfle i Aelodau unigol holi tystion yn ystod sesiynau tystiolaeth. Mae hyn wedi galluogi Aelodau i ddatblygu eu harbenigedd gymaint â phosibl o ran y pynciau sy'n cael eu trafod.

Mae'r gallu i Aelodau gymryd rhan mewn cyfarfodydd yn rhithwir hefyd wedi bod yn ddefnyddiol o ran cynnig hyblygrwydd a lliniaru risgiau o safbwynt cworwm.

O ran amserlennu, mae cyfrifoldebau eang y Pwyllgor wedi golygu ein bod wedi gorfod cyfarfod yn wythnosol, gan ddefnyddio'r slotiau wedi'u hamserlennu a'r slotiau wrth gefn ar yr amserlen bob yn ail wythnos. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i drefnu ymweliadau a digwyddiadau heb anawsterau ymarferol sylweddol.

Cylch gorchwyl y Pwyllgor

Mae cylch gwaith presennol y Pwyllgor yn sylweddol, gan gwmpasu'r gwaith o graffu ar gyllidebau Llywodraeth Cymru a chyrff a ariennir yn uniongyrchol, yn ogystal â chraffu ar oblygiadau ariannol holl Filiau'r Senedd. Rydym wedi cyflawni'r cyfrifoldebau hyn yn effeithiol, yn ein barn ni. Fodd bynnag, rydym hefyd wedi wynebu'r heriau a amlinellir isod.

Yn ystod y Chweched Senedd, bu'n rhaid i ni wneud ein gwaith craffu ar y gyllideb ochr yn ochr â'r gwaith o graffu ar egwyddorion cyffredinol dau Fil, sef y Ddeddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 a Deddf Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru) 2025.

Rhoddodd y gorgyffwrdd hwn bwysau sylweddol ar ein gallu i graffu ar y gyllideb a'r ddeddfwriaeth yn fanwl, a dylid ystyried cyfrifoldebau pwyllgorau o dan y Rheolau Sefydlog wrth amserlennu a chyfeirio Biliau yn y dyfodol er mwyn osgoi gorgyffwrdd rhwng y gwaith craffu cyllidebol a'r gwaith craffu deddfwriaethol sy'n rhaid ei wneud yn ôl amserlenni llym.

Fel Pwyllgor, rydym wedi blaenoriaethu ein gwaith craffu strategol ar y Gyllideb Ddrafft, gan adeiladu ar waith ein rhagflaenwyr yn y Bumed Senedd a galluogi pwyllgorau polisi i ganolbwyntio ar y gwaith o graffu ar y gyllideb o fewn eu meysydd polisi priodol. Gall hyn fod yn heriol, yn enwedig pan fo'r amserlen ar gyfer gwaith craffu ar y gyllideb yn gyfyngedig. Fodd bynnag, mae ein dull o ymgynghori â phwyllgorau eraill yn dilyn pob cylch cyllidebol wedi arwain at welliannau pendant, yn enwedig o ran gwella ansawdd y dystiolaeth ysgrifenedig sy'n dod i law gan Lywodraeth Cymru ac o ran ein helpu i ddeall yr heriau y mae pwyllgorau eraill yn eu hwynebu wrth graffu ar y gyllideb. Mae'r dull cydweithredol hwn wedi bod yn fuddiol, a byddem yn annog bod y diwylliant hwn yn cael ei wreiddio ymhellach yn y Seithfed Senedd.

Mae ein rôl o drafod goblygiadau ariannol deddfwriaeth hefyd wedi sicrhau bod costau pob Bil yn y Senedd yn destun ystyriaeth fanwl. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn craffu ar ddeddfwriaeth yn drylwyr, ac rydym o'r farn y dylai pwyllgor pwrpasol barhau i graffu ar gostau o'r fath yn ystod y Seithfed Senedd.

Mae rôl y Pwyllgor o ran craffu ar y cyrff a ariennir yn uniongyrchol hefyd wedi cael effaith sylweddol ar ein llwyth gwaith yn ystod y Chweched Senedd.

Mae'r Pwyllgor wedi gweithredu fel pwyllgor penodiadau cyhoeddus de facto'r Senedd, gan wneud gwaith sylweddol wrth benodi ac argymell ymgeiswyr ar gyfer rolau allweddol, gan gynnwys:

- penodi Aelodau Anweithredol o Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru;
- argymell dau Gadeirydd i'w penodi gan y Senedd;
- argymell yr ymgeisydd a ffefrir i'w enwebu'n Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC); a
- chychwyn y broses recriwtio ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru, gydag enwebiad i'w drafod gan y Senedd cyn y diddymiad.

Mae ein cylch gwaith hefyd wedi cwmpasu cyfrifoldebau dros oruchwylio gwaith Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a arweiniodd at y Senedd yn cyfarwyddo'r Pwyllgor i gynnal adolygiad o weithrediadau, prosesau ac ymchwiliadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Er bod y darnau hyn o waith o bwys cyhoeddus mawr, mae eu natur orfodol wedi cael effaith ganlyniadol ar ein gallu i gynnal ymchwiliadau rhagweithiol. Er ein bod wedi llunio adroddiadau polisi mewn meysydd strategol allweddol, fel cyllid ar ôl ymadael â'r UE a chysylltiadau rhynglywodraethol cyllidol, mae ein rhwymedigaethau o dan y Rheolau Sefydlog wedi cyfyngu ar ein gallu i fynd ar drywydd materion penodol oherwydd diffyg amser a chapasiti.

Cymorth ar gyfer arloesi ac ymgysylltu

Mae'r Pwyllgor yn falch o dynnu sylw at sawl arfer arloesol a ddatblygwyd yn ystod y Chweched Senedd. Yn nodedig, fe wnaethom ni sefydlu Fforwm Rhyngseneddol y Pwyllgorau Cyllid ynghyd â phwyllgorau cyfatebol mewn deddfwrfeydd datganoledig eraill. Mae hyn wedi bod yn effeithiol wrth eirioli dros bryderon yr ydym yn eu rhannu, megis amseriad digwyddiadau cyllidol y DU a pharodrwydd swyddogion Trysorlys y DU i ymddangos gerbron pwyllgorau datganoledig.

Rydym hefyd wedi parhau â'n gwaith ymgysylltu ar y gyllideb, gan gynnwys cydweithio arloesol â Senedd Ieuenctid Cymru a rhanddeiliaid eraill sy'n gonglfaen i'n dadl flynyddol ar flaenoriaethau'r gyllideb yn y Senedd. Mae hyn wedi sicrhau bod ein gwaith yn cael ei lywio gan brofiadau bywyd a bod ein hargymhellion yn adlewyrchu barn y bobl rydym yn eu cynrychioli. Mae'r cynnydd sylweddol yn yr ymatebion ysgrifenedig i ymgynghoriadau a ddaeth i law yn ystod tymor y Senedd hon yn dyst i faint o bryder y mae'r cyhoedd yn ei deimlo ynghylch y pwysau ariannol sydd i'w gweld ledled Cymru.

Credwn fod y gwaith hwn yn hanfodol. Mae gallu pwyllgorau i weithredu y tu hwnt i gyfarfodydd ffurfiol yn hollbwysig i gyflawni cyfrifoldebau strategol ehangach, yn ogystal â meithrin perthnasoedd effeithiol â'r cyhoedd, rhanddeiliaid a seneddau eraill. Dylai unrhyw strwythur ac amserlen arfaethedig ar gyfer pwyllgorau'r dyfodol alluogi arferion tebyg i barhau.

Gobeithiwn fod ein myfyrdodau o gymorth i'r Fforwm, a byddem yn croesawu mwy o ymgysylltiad ar y materion hyn. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at weld canfyddiadau'r adolygiad maes o law.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. | We welcome correspondence in Welsh or English.